

**Adroddiad yr Ymgynghoriad**  
**Canllaw Cynllunio Atodol Ar y Cyd**

I Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd Medi 2010

|                                                                                                    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Canllaw Cynllunio Atodol Ar y Cyd Yn Galluogi Datblygiad Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------|

Cymeradwywyd canllaw newydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 24ain Medi 2014. Dechreuodd yr ymgynghoriad 12 wythnos ar 22 Hydref 2014 a daeth i ben ar 30 Ionawr 2015. Fe ymgynghorodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog hefyd.

Anfonwyd tua 400 o lythyron a 400 e-bost i'r rheiny oedd wedi mynegi dewis, i amrywiaeth o ymgynghorwyr. Roedd y rhain yn cynnwys Asiantiaid, Penseiri, Cynghorau Tref a Chymuned o fewn y Parc, Cymdeithasau Tai, Gwerthwyr Tai, Datblygwyr, Grwpiau Cymuned Lleol, ACau ac ASau Lleol, Cynghorwyr Sir, Gwasanaethau, Siambrau Masnach, Grwpiau Amgylcheddol, asiantaethau Llywodraeth, a phobol eraill oedd wedi mynegi diddordeb. Hysbyswyd yr ymgynghorwyr bod CD o'r dogfennau ymgynghorol ar gael am ddim ac roedd y dogfennau ar gael i'w lawr lwytho o wefan yr Awdurdod. Roedd copïau papur o'r Canllaw Cynllunio Atodol ar gael am dâl bychan pan wneir cais am hynny. Darparwyd y cyfle hefyd i Gynghorau Tref a Chymuned i gael copi papur am ddim neu CD ar gais.

Darparwyd llythyron a chopïau CD o'r dogfennau ymgynghori i bob llyfrgell o fewn Sir Benfro, San Clêr ac Aberteifi. Roedden nhw ar gael hefyd yng nghanolfannau'r Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych y Pysgod yn y fformat hwn. Roedd copïau papur o'r dogfennau ar gael i'w gweld yn Swyddfeydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym Mharc Llanion Doc Penfro.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad hwn trwy wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiadau cyhoeddus yn y Western Telegraph a ymddangosodd ar 22 Hydref 2014. Dosbarthwyd datganiad i'r wasg hefyd i allfeydd cyfryngol lleol a chenedlaethol. Tua diwedd yr ymgynghoriad fe ddosbarthon ni ail ddatganiad i'r wasg yn atgoffa'r cyhoedd o'r dyddiad cau ar gyfer anfon ymatebion. Ymddangosodd hwn yn y Tenby Observer, Pembroke and Pembroke Dock Observer, Narberth and Whitland Observer a County Echo.

Cydnabuwyd pob ymateb, ac maen nhw ar gael yn gyhoeddus - gweler y cyswllt gwe isod. Ymatebodd cyfanswm o 5 o bobol/sefydliadau i ymgynghoriad Awdurdod y Parc Cenedlaethol hwn, a hyn yn gwneud cyfanswm o 14 sylw unigol.

Adroddwyd ymatebion swyddogion i'r ymgynghoriad ar y Canllaw Cynllunio Atodol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2015. Gellir gweld adroddiad o ymatebion y swyddogion i'r canllaw cynllunio atodol trwy ddefnyddio'r cysylltiadau gwe canlynol:

[http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/2015/25\\_03\\_15/14\\_15%20SPG%20Sustainable%20Development.pdf](http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/2015/25_03_15/14_15%20SPG%20Sustainable%20Development.pdf)

Rhoddodd yr Awdurdod ystyriaeth hefyd i'r ymatebion a dderbyniodd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri. Cytunodd yr Awdurdod i wneud newidiadau i'r canllaw yn unol ag argymhellion y swyddogion oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, yn amodol ar destun ychwanegol yn adlewyrchu sylwadau Cadw ym mharagraff 2.7

Mae'r Canllaw wedi'i lwytho i fyny ar y wefan:

<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>